



Cyngor Sir Powys

Dogfen Ymgynghori Pobl Ifanc

**Sefydlu Ysgol Pob Oed newydd i ddisgyblion 4-18 oed
yn Llanfyllin**

**Dyddiadau ymgynghori: 27 Tachwedd 2018 – 31
Ionawr 2019**

Rhagarweiniad

Efallai y byddwch wedi clywed fod Cyngor Sir Powys yn ystyried newid y ffordd y mae addysg gynradd ac uwchradd yn cael ei darparu yn Llanfyllin, drwy sefydlu ysgol pob oed newydd i ddisgyblion 4-18 oed, a fyddai'n darparu addysg gynradd ac addysg uwchradd. Byddem yn hoffi gwybod beth yw eich barn am hyn – yr enw ar hyn yw 'ymgyngori'.

Beth y mae 'ymgyngori' yn ei feddwl?

Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru ddilyn rheolau Llywodraeth Cymru pan fydd yn ystyried gwneud newidiadau i ysgolion. Fel rhan o'r broses hon, rhaid i Gynghorau 'ymgyngori'n ffurfiol' â'r holl bobl sydd â diddordeb – mae'n rhan o'r broses gyfreithiol a rhaid ei dilyn.

Nod yr ymgynghoriad hwn yw helpu Cabinet y Cyngor i wneud penderfyniad am ddyfodol addysg yn Llanfyllin. Bydd y Cyngor yn ystyried ymatebion pawb fel bo'r Cabinet yn cael gwybod am unrhyw faterion, barn, goblygiadau neu unrhyw opsiwn nad ydynt efallai wedi meddwl amdano. Bydd Cynghorwyr y Cabinet yna'n gallu gwneud penderfyniad am beth i'w wneud nesaf.

Cefndir

Dwy ysgol dwy ffrwd yn nhref Llanfyllin yw Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Mae'r Ysgol Gynradd yn gwasanaethu tref Llanfyllin yn bennaf a'r Ysgol Uwchradd yn gwasanaethu dalgylch ehangach a gwledig yn bennaf. Lleolir y ddwy ysgol ar yr un safle.

Dyma niferoedd presennol y disgyblion yn y ddwy ysgol:

	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
Ysgol G.G. Llanfyllin	18	19	19	28	16	21	26	147

	7	8	9	10	11	12	13	Cyfanswm
Ysgol Uwchradd Llanfyllin	101	96	118	137	142	56	57	707

Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Llanfyllin yn eithaf sefydlog ond mae nifer y disgyblion yn yr Ysgol Uwchradd wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Disgwylir i'r duedd hon barhau.

Yn 2018, penderfynodd Gabinet y Cyngor gymeradwyo 'Polisi Trefniadaeth Ysgol' yn nodi y byddai'r Cyngor yn hoffi gweld ysgolion uwchradd yn dod yn 'ysgolion pob oed' neu'n rhan o 'drefniadau aml-safle'. Ar ôl cymeradwyo'r polisi, gwahoddwyd y Cyngor i gwrdd â llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin i drafod y polisi newydd a'r model ysgol pob oed yn enwedig.

Yn dilyn y trafodaethau hyn, ysgrifennodd y ddau gorff llywodraethu lythyr at y Cyngor yn gofyn iddynt ddechrau'r broses o agor ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin drwy uno Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin.

Pam fod angen newid yn Llanfyllin?

Mae'r heriau presennol sy'n wynebu'r ddwy ysgol yn Llanfyllin fel a ganlyn:

- i) Nifer y disgyblion yn gostwng, yn enwedig yn y sector uwchradd** – mae nifer y disgyblion ar draws y ddwy ysgol wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf a disgwylir iddynt barhau i ostwng dros y blynyddoedd nesaf.
- ii) Pwysau cyllideb** – fel gyda nifer o ysgolion eraill ar draws Powys a Chymru, mae'r ddwy ysgol yn wynebu pwysau ariannol.
- iii) Angen darparu cwricwlwm ôl-16 sy'n apelio** – mae nifer y disgyblion chweched dosbarth yn gostwng sy'n ei gwneud yn anoddach i ysgolion ddarparu ystod eang o bynciau i ddysgwyr.
- iv) Ffrwd cyfrwng Cymraeg eithaf bach yn y sector uwchradd** – mae nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd yn eithaf bach sy'n golygu bod darparu ystod eang o bynciau cyfrwng Cymraeg yn gallu bod yn anodd.
- v) Angen gwella ansawdd y ddarpariaeth** – mae tystiolaeth fod angen gwella ansawdd y ddarpariaeth yn y ddwy ysgol.
- vi) Trafferthion penodi pennaeth yn y sector cynradd** – nid oes pennaeth parhaol wedi bod gan Ysgol Gynradd Llanfyllin ers i'r pennaeth blaenorol adael yn 2015. Mae angen pennaeth parhaol i wneud yn siŵr bod y ddarpariaeth gynradd yn Llanfyllin yn parhau i wella.

Mae mwy o wybodaeth am yr heriau hyn ar gael yn y Ddogfen Ymgynghori lawn, sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn: <https://cwsmer.powys.gov.uk/article/5275/Ysgol-GG-Llanfyllin-ac-Ysgol-Uwchradd-Llanfyllin>

Pa opsiynau a ystyriwyd?

Mae trafodaethau rhwng y Cyngor a chyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin wedi awgrymu bod diddordeb mewn symud tuag at fodel ysgol pob oed yn Llanfyllin.

Ystyriwyd nifer o opsiynau er mwyn cyflawni hyn. Y rhain oedd:

- **Dim newid** - yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd i barhau i gael eu rhedeg yn annibynnol.
- **Ysgol ffederal pob oed** – yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd i ffedereiddio i greu ysgol ffederal pob oed yn Llanfyllin.
- **Ysgol pob oed** – yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd i uno i greu ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin.

Mae mwy o wybodaeth am yr opsiynau hyn ar gael yn y Ddogfen Ymgynghori lawn, sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn: <https://cwsmer.powys.gov.uk/article/5275/Ysgol-GG-Llanfyllin-ac-Ysgol-Uwchradd-Llanfyllin>

Y Cynnig

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynigion i sefydlu ysgol pob oed newydd i ddisgyblion 4-18 oed yn Llanfyllin. Dyma'r cynigion:

- Cau Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin.
- Sefydlu ysgol pob oed ddwyieithog newydd i ddisgyblion 4-18 oed ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin.

Y dyddiad targed presennol yw cau'r ddwy ysgol ar 31 Awst 2020 gyda'r ysgol newydd i agor ar 1 Medi 2020.

Beth yw ysgol pob oed?

Ysgol pob oed yw ysgol sy'n darparu addysg gynradd ac addysg uwchradd. Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg gan un pennaeth ac un corff llywodraethu, ac mae gan yr ysgol un gyllideb.

Beth fyddai hyn yn ei olygu i ddisgyblion?

i) Disgyblion sy'n mynd i Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin ar hyn o bryd

- Byddai disgyblion sy'n mynd i Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin ar hyn o bryd yn dal i fynychu'r ysgol yn yr adeiladau presennol – byddai disgyblion hyd at flwyddyn 6 yn cael eu haddysgu ar safle presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin a byddai disgyblion o flwyddyn 7 ymlaen yn cael eu haddysgu ar safle presennol Ysgol Uwchradd Llanfyllin.
- Fodd bynnag, byddai gan ddisgyblion gyfleoedd gwell i ddefnyddio'r cyfleusterau ar y ddau safle.
- Yn benodol, byddai gan ddisgyblion cynradd fwy o gyfle i ddefnyddio'r cyfleusterau arbenigol a ddefnyddir yn bennaf gan ddisgyblion uwchradd.
- Byddai hefyd mwy o gyfle i ddisgyblion, ym mhob un o'r cyfnodau allweddol, elwa o arbenigedd staff drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.
- Gallai'r ysgol pob oed newydd ddarparu darpariaeth barhaus i ddisgyblion drwy gydol eu hamser yn yr ysgol, yn enwedig disgyblion agored i niwed. Byddai'r ysgol pob oed newydd hefyd yn gallu cynnig cyfleoedd gwell i ddisgyblion mwy abl a thalentog.
- Byddai cyfle i bontio'n well rhwng y cyfnodau addysgol, rhywbeth a ddylai gael effaith gadarnhaol ar les a hefyd ar berfformiad addysgol y disgyblion.

ii) Disgyblion sy'n mynd i ysgolion cynradd eraill yn nalgyrch Llanfyllin

- Byddai disgyblion sy'n mynd i ysgolion cynradd eraill yn nalgyrch Llanfyllin yn parhau i fod yn gallu trosglwyddo i'r ysgol pob oed newydd ym mlwyddyn 7.
- Byddai angen i'r ysgol feddwl yn ofalus am y trefniadau pontio i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd eraill, i sicrhau na fyddai'r disgyblion hyn o dan anfantais o'i gymharu â disgyblion a fyddai eisoes yn derbyn eu haddysg gynradd drwy'r ysgol pob oed newydd.
- Byddai cyfle hefyd i wella'r berthynas bresennol gydag ysgolion cynradd eraill y dalgyrch, er mwyn cynnig cyfleoedd gwell i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgolion hyn a sicrhau trefniadau pontio gwell i'r disgyblion hyn.

Beth fydd yn digwydd wedyn?

Bydd yr ymgynghori'n dechrau ar 27 Tachwedd 2018 ac yn gorffen ar 31 Ionawr 2019. Bydd adroddiad ar yr ymgynghoriad yna'n cael ei gynhyrchu'n crynhoi'r materion a gododd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd adroddiad yr ymgynghoriad yn cael ei ystyried gan y Cabinet fydd yna'n penderfynu a ddylid symud ymlaen i sefydlu ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin neu beidio.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig, byddai 'rhybudd statudol' yn cael ei gyhoeddi gyda 28 diwrnod i bobl gael gwrthwynebu i'r cynnig. Byddai Adroddiad Gwrthwynebiadau yna'n cael ei gynhyrchu'n crynhoi'r materion yn codi yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a byddai'r Cabinet yna'n cwrdd eto i ystyried y Gwrthwynebiadau cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Os bydd y Cabinet yna'n penderfynu peidio â symud ymlaen gyda'r cynnig, ni fyddai pethau'n newid i'r ddwy ysgol.

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Gallwch lenwi holiadur, sydd ar gael ar-lein ar wefan y Cyngor yn:

<https://cwsmer.powys.gov.uk/article/5275/Ysgol-GG-Llanfyllin-ac-Ysgol-Uwchradd-Llanfyllin>

Neu gallwch ysgrifennu atom gyda'ch barn.

Dylid anfon holiaduron wedi eu llenwi, ac ymatebion ysgrifenedig eraill, i'r cyfeiriad canlynol:

Tîm Trawsnewid Ysgolion
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG
E-bost: school.consultation@powys.gov.uk

Rhaid i ni dderbyn pob gohebiaeth erbyn 31 Ionawr 2019 fan bellaf.